



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

---

**OFFERYNNAU STATUDOL**

---

---

**STATUTORY INSTRUMENTS**

---

**2003 Rhif 990 (Cy.139)**

**2003 No. 990 (W.139)**

**LANDLORD A THENANT,  
CYMRU**

**LANDLORD AND TENANT,  
WALES**

Rheoliadau Diwygio Lesddaliad  
(Rhyddfrenio ar y Cyd) (Gwrth-  
hysbysiadau) (Cymru) 2003

The Leasehold Reform (Collective  
Enfranchisement) (Counter-  
notices) (Wales) Regulations 2003

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Rhaid i berson sy'n cael hysbysiad o gais am ryddfrait ar y cyd sydd wedi ei wneud o dan Ran I o Ddeddf Diwygio Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 ("Deddf 1993") ymateb drwy roi gwrth-hysbysiad yn derbyn neu yn gwrthod y cais. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi gofyniad, yn ychwanegol at y rhai a bennir yn adran 21 o Ddeddf 1993, ynglŷn â chynnwys y gwrth-hysbysiad.

A person who receives a notice for a claim for collective enfranchisement made under Part I of the Leasehold Reform, Housing and Urban Development Act 1993 ("the 1993 Act") must respond by giving a counter-notice admitting or opposing the claim. These Regulations prescribe a requirement, in addition to those specified in section 21 of the 1993 Act, as regards the contents of the counter-notice.

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys ond i wrth-hysbysiadau a roddir ar, neu ar ôl, y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

These Regulations only apply to counter-notices given on or after the date these Regulations come into force.

**2003 Rhif 990 (Cy.139)****2003 No. 990 (W.139)****LANDLORD A THENANT,  
CYMRU****LANDLORD AND TENANT,  
WALES****Rheoliadau Diwygio Lesddaliad  
(Rhyddfrenio ar y Cyd) (Gwrth-  
hysbysiadau) (Cymru) 2003****The Leasehold Reform (Collective  
Enfranchisement) (Counter-  
notices) (Wales) Regulations 2003**

*Wedi'u gwneud* 2 Ebrill 2003  
*Yn dod i rym* 10 Ebrill 2003

*Made* 2nd April 2003  
*Coming into force* 10th April 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 99(6)(b) o Ddeddf Diwygio Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993(a), sydd bellach wedi eu breinio ynddo i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(b) yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers given to the Secretary of State by section 99(6)(b) of the Leasehold Reform, Housing and Urban Development Act 1993(a), which are now vested in it so far as exercisable in Wales(b):

**Enw, cychwyn a chymhwyso****Name, commencement and application**

1. - Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Rhyddfrenio ar y Cyd) (Gwrth-hysbysiadau) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 10 Ebrill 2003.

1. These Regulations are called the Leasehold Reform (Collective Enfranchisement) (Counter-notices) (Wales) Regulations 2003 and come into force on 10th April 2003.

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

2. These Regulations apply to Wales only.

**Dehongli****Interpretation**

3. Yn y Rheoliadau hyn-

3. In these Regulations -

ystyr "Deddf 1993" ("*the 1993 Act*") yw Deddf Diwygio Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993;

"the 1993 Act" ("*Deddf 1993*") means the Leasehold Reform, Housing and Urban Development Act 1993;

mae i "y tir a'r adeiladau penodol" ("*the specified premises*") yr un ystyr ag sydd i'r ymadrodd "*the specified premises*" yn adran 13(12)(a) o Ddeddf 1993.

"the specified premises" ("*y tir a'r adeiladau penodol*") has the same meaning as in section 13(12)(a) of the 1993 Act.

**Cynnwys ychwanegol gwrth-hysbysiad ôl-  
feddiannydd****Additional content of reversioner's counter-notice**

4. Rhaid i wrth-hysbysiad a roddir o dan adran 21 (Gwrth-hysbysiad ôl-feddiannydd) o Ddeddf 1993 gynnwys (yn ogystal â'r manylion sy'n ofynnol o dan yr adran honno) ddatganiad ynghylch a yw'r tir a'r adeiladau penodol o fewn ardal cynllun a

4. A counter-notice given under section 21 (Reversioner's counter-notice) of the 1993 Act must contain (in addition to the particulars required by that section) a statement as to whether or not the specified premises are within the area of a scheme approved as an estate management scheme under section 70 of the

(a) 1993 p.28.

(a) 1993 c.28.

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

gymeradwywyd fel cynllun rheoli ystâd o dan adran 70 o Ddeddf 1993.

1993 Act.

### **Cymhwyso**

5. Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i wrth-hysbysiadau a roddir o dan adran 21 o Ddeddf 1993 ar, neu ar ôl, y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym.

### **Application**

5. These Regulations apply to counter-notices given under section 21 of the 1993 Act on or after the date these Regulations come into force.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

2 Ebrill 2003

2nd April 2003

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

---

(a) 1998 p.38.

---

(a) 1998 c.38.

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2003 Rhif 990 (Cy.139)**

**LANDLORD A THENANT,  
CYMRU**

Rheoliadau Diwygio Lesddaliad  
(Rhyddfrenio ar y Cyd) (Gwrth-  
hysbysiadau) (Cymru) 2003

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2003 No. 990 (W.139)**

**LANDLORD AND TENANT,  
WALES**

The Leasehold Reform (Collective  
Enfranchisement) (Counter-  
notices) (Wales) Regulations 2003

©© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£1.75**

W84/04/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090716-7



9 780110 907161